
Adolygiad o reoleiddio'r post

Cais am fewnbwn

CAIS AM FEWNBWN:

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mawrth 2021

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 20 Mai 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

3

1. Trosolwg

Mae gwasanaethau post yn chwarae rhan allweddol yn ein cymdeithas. Fe'u defnyddir gan bron bawb yn y DU yn rheolaidd, o dderbyn cludiadau siopa ar-lein neu ohebiaeth feddygol bwysig, i anfon llythyrau at berthnasau. Mae rôl Ofcom fel y rheoleiddiwr post yn canolbwyntio ar sicrhau darpariaeth gwasanaeth cyffredinol, gan roi ystyriaeth i gynladwyedd ariannol ac effeithlonrwydd. Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i eirioli buddiannau defnyddwyr, lle y bo'n briodol, trwy hyrwyddo cystadleuaeth.

Mae'r farchnad bost wedi newid yn ddramatig dros y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer y llythyrau y mae pobl yn eu hanfon a'u derbyn wedi gostwng, gan eu bod yn dibynnu fwyfwy ar e-bost a chyfathrebiadau ar-lein eraill, tra bod nifer y parseli wedi tyfu'n sylweddol. Mae'r tueddiadau hyn wedi cyflymu yn ystod y pandemig Covid-19 ac wedi creu heriau yn ogystal â chyfleoedd i weithredwyr post. Yr ydym wedi gweld technoleg yn chwarae rhan gynyddol wrth wella gwasanaethau post. Er enghraifft, mae llawer o weithredwyr bellach yn defnyddio technoleg dracio i wella gwasanaeth cwsmeriaid, ac mae rhai wedi treialu'r defnydd o dronau i gludo i fannau anghysbell. Mae cystadleuaeth ddwys rhwng cludwyr parseli ar gyfer nwyddau defnyddwyr a archebir ar-lein hefyd wedi cynyddu.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod rheoleiddio'r post yn cyd-fynd â newidiadau yn y farchnad a'i fod yn parhau'n berthnasol, yn addas i'r diben ac yn effeithiol. Bu i ni adolygu ein fframwaith rheoleiddio'r post ddiwethaf yn 2017, gan ddweud y dylai aros yn ei le tan 2022. Y ddogfen hon yw'r cam cyntaf yn ein hadolygiad nesaf o reoleiddio'r post yn y dyfodol ac mae'n gwahodd sylwadau ar y prif themâu rydym yn eu hystyried fel rhan o'n hadolygiad. Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion polisi ar hyn o bryd.

Materion yr ydym yn eu hystyried

Yn y cyfnod hwn o newid sylweddol yn y marchnadoedd post, ein nod yw sicrhau bod ein fframwaith rheoleiddio'n addas i'r diben ac yn effeithiol. Ein nod yw darparu hyblygrwydd masnachol i'r darparwr gwasanaeth cyffredinol, er mwyn caniatáu i rannau cystadleuol y farchnad sy'n gweithio'n dda weithredu'n effeithiol a thargedu ein hymyriad rheoleiddio lle y bo'n briodol. Mae'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol ddsbarthu llythyrau a pharseli i bob cyfeiriad yn y DU am bris unfurf a fforddiadwy. Mae'r rheoliad mynediad cyfanwerthol presennol yn caniatáu i weithredwyr post eraill ddefnyddio rhannau o rwydwaith y Post Brenhinol i lenwi bylchau yn eu rhwydwaith eu hunain a chynnig gwasanaethau llythyrau amgen i fusnesau. Credwn fod ein dull cyffredinol wedi gweithio'n dda hyd yma, ond rydym yn croesawu safbwyntiau ynghylch a yw'n parhau'n addas i'r diben neu a oes angen unrhyw newidiadau.

Cynladwyedd ac effeithlonrwydd. Nod ein dull rheoleiddio presennol yw cefnogi'r Post Brenhinol i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy ac yn effeithlon. Rydym am roi ysgogiadau i'r Post Brenhinol i foderneiddio ei fusnes, rheoli'r dirywiad mewn llythyrau'n briodol, ac i wneud arbedion effeithlonrwydd, heb ddiraddio ansawdd y gwasanaethau dosbarthu na chodi prisiau heb gyfiawnhad. Mae'r rhain yn hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy, yn effeithlon ac yn fforddiadwy. Croesawn safbwyntiau ar ein hymagwedd bresennol at gynladwyedd ac effeithlonrwydd a sut y gellir ei gwella.

Llythyrau a'r gwasanaeth cyffredinol. Yn 2020, bu i ni gyhoeddi adolygiad cynhwysfawr o anghenion defnyddwyr post ledled y DU, i weld a yw'r gofynion gwasanaeth cyffredinol ar y Post Brenhinol yn dal i adlewyrchu'r hyn sydd ei angen ar bobl a busnesau heddiw. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am newidiadau posib i ofynion sylfaenol y gwasanaeth cyffredinol ac felly nid ydynt o fewn cwrdd yr adolygiad hwn. Ond rydym yn ystyried y rhannau hynny o'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol sy'n dod o fewn ein cylch gwaith, gan gynnwys:

- y capiau diogelu prisiau sy'n berthnasol i stampiau Ail Ddosbarth a pharseli llai;
- fforddadwyedd gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol, sy'n caniatáu i bobl ailgyfeirio post o'u hen gyfeiriad i'w cyfeiriad newydd; a
- thargedau ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol, sy'n berthnasol i rai cynhyrchion gwasanaeth cyffredinol.

Croesawn farn rhanddeiliaid ynghylch a oes angen unrhyw newidiadau i'r rheoliadau gwasanaeth cyffredinol o fewn ein cylch gwaith mewn perthynas â chynhyrchion llythyrau.

Y farchnad barseli, gan gynnwys mesurau diogelu defnyddwyr a'r gwasanaeth cyffredinol. Wrth i ddibyniaeth pobl ar barseli barhau i dyfu, rydym yn ceisio barn ar effeithiolrwydd cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr yn y farchnad parseli. Rydym yn gwahodd sylwadau ar faterion sy'n codi mewn perthynas â thrin cwynion a digolledu. Rydym hefyd yn gwahodd sylwadau ynghylch a oes angen newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol ar gyfer parseli, megis cynnwys gwasanaethau tracio yn y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol.

Mynediad a phost swmp. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i'r Post Brenhinol ddarparu mynediad cyfanwerthol i'w rwydwaith. Er bod cystadleuaeth gan ddarparwyr llythyrau swmp sy'n dibynnu ar fynediad cyfanwerthol i rwydwaith y Post Brenhinol wedi parhau'n gryf yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae rhai cwsmeriaid mynediad cyfanwerthol wedi codi pryderon am ymgysylltiad y Post Brenhinol wrth gyflwyno gwasanaethau cyfanwerthu newydd ac am y newidiadau yng nhaliadau mynediad y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai hefyd wedi gofyn am newidiadau i gwmpas y rheoliad mynediad ei hun. Rydym yn croesawu barn ar y rheoliadau mynediad presennol a pha un a oes angen unrhyw newidiadau.

Camau nesaf

Hoffai Ofcom dderbyn barn a sylwadau ar y materion a godwyd yn y ddogfen hon, erbyn 5pm ar ddydd Iau 20 Mai. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad llawn ar ddyfodol rheoleiddio gwasanaethau post yn ddiweddarach eleni, cyn cwblhau ein hadolygiad yn 2022.